**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**A GYNHALIWYD AR 19 RHAGFYR 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; a Mrs Julie May.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); a Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:30

**Ymddiheuriadau:** Mr Theodore Joloza.

**1. Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff y Cadeirydd**

2.1. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i strategaeth a chyllideb TG y Comisiwn. Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a wnaed gan staff yr Ysgrifenyddiaeth ac roedd yn edrych ymlaen at gaffael a gweithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Rhagfyr 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1) Y Porth Ymgynghori.** Roedd y contractwr wedi cwblhau gwaith datblygu cychwynnol y Porth, ac roedd wedi bellach wedi trefnu'r diweddariadau mwyaf diweddar. Mae profion yn cael eu cynnal gan staff y Comisiwn ar hyn o bryd, ac adborth wedi'i roi i'r contractwyr er mwyn galluogi cwblhau'r Porth mewn pryd ar gyfer lansiad meddal yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hyn yn cynnwys manylion y ddau neu dri Arolwg cyntaf, a Cheredigion fydd y cyntaf o'r Arolygon manwl cwbl gynhwysol i ddilyn.
- **(Mater 2) Gwobr Iechyd y Gweithle Bach**. Mae paratoadau i ymgeisio am y Wobr hon yn parhau.
- **(Mater 3) Y Strategaeth TG**. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno ar strategaeth ac achos busnes TG y Comisiwn. Bydd Cymwysterau Cymru yn cael gwybod, a gwneir cynlluniau i integreiddio a chaffael, a bydd rhai contractau yn cael eu datblygu, a rhagwelir gwario yn y Flwyddyn Newydd.
- **(Mater 4) Adeilad**. Mae'r broses o drosglwyddo'r brydles i'r Comisiwn wedi'i chwblhau. Mae trafodaethau ynglŷn â'r brydles newydd yn parhau.
- **(Mater 5) Arweiniad ar Arolygon Cymunedol**. Mae ymgynghoriad yr Arweiniad yn cau ar 21 Rhagfyr 2017.

**5. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Rhagfyr 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

5.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn gyda'r newidiadau canlynol –

- CR5 – israddio'r risg weddilliol o 12 i 9 yn sgil cytundeb gan Ysgrifennydd y Cabinet i achos busnes y Comisiwn i fwrw ymlaen â'r strategaeth TG newydd.
- CR7 – camau lliniaru i'w diweddaru i ddangos bod y brydles bellach wedi'i throsglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn, a bod telerau'r brydles newydd yn cael eu trafod gan gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn.

**6. Adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Rhagfyr 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** y polisi gan ychwanegu'r diffiniad o'r gwahaniaeth rhwng 'Risgiau Generig a Risgiau sy'n dod i'r Amlwg'.

**7. Adroddiad ar y Gyllideb**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Rhagfyr 2017 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** y trosglwyddiadau arfaethedig yng nghategorïau'r gyllideb. **Ystyriodd** y Comisiwn y lefel danwariant bresennol a'r rhesymau amdano, a **Chytunwyd** y byddai £30,000 yn cael ei ildio'n ôl i Lywodraeth Cymru ac y byddai pennaeth yr isadran noddi yn cael ei hysbysu ynglŷn â'r penderfyniad hwn.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

7.3. Nodwyd bod anawsterau'n parhau o ran derbyn anfonebau amserol o adrannau eraill y llywodraeth mewn perthynas â staff wedi'u secondio'n fewnol. Gallai hyn ddod yn broblem ar ddiwedd y flwyddyn a gallai fynnu bod y Comisiwn yn cario symiau mawr o gyllid drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. **Cytunwyd** y dylid gwneud mwy o ymdrech i fynd ar drywydd anfonebau ar gyfer costau Secondeion o adrannau eraill y llywodraeth i baratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn.
**Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 8. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Tachwedd 2017 gan y Rheolwr Cyllid. Nododd y Comisiwn y prif bwyntiau trafod a'r camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod.

8.2. **Cytunodd** y Comisiwn i awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyd-drafod gwaith archwilio mewnol ychwanegol ar y trefniadau TGCh yn y dyfodol y mae'r Comisiwn yn eu rhoi ar waith fel rhan o'r strategaeth TGCh newydd ar gyfer archwiliad mewnol 2018-19.

8.3. **Nododd** y Comisiwn gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017.

## 9. Adolygiad o'r Polisi Twyll

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Rhagfyr 2017 gan y Rheolwr Cyllid. Roedd y fersiwn ddiwygiedig o'r polisi yn cynnwys testun ychwanegol yn ymdrin â dangosyddion twyll.

9.2. **Nododd** a **Chytunodd** y Comisiwn i gadarnhau'r polisi presennol heb y testun ychwanegol arfaethedig yr oedd y Comisiwn o'r farn ei fod yn ddiangen. Bydd y Polisi'n cael ei adolygu eto ym mis Rhagfyr 2020.

## 10. Arolwg Etholiadol Conwy

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Rhagfyr 2017 gan y Swyddog Arolygon.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn i dderbyn y ffigurau rhagamcanol diwygiedig a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn lle'r rhai a ddarparwyd ar ddechrau'r arolwg, ac sydd wedi'u cyhoeddi.

10.3. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnig ward â dau aelod, sef Gele, yn sgil y ffigurau rhagamcanol diwygiedig y darparwyr ar eu cyfer gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

10.4. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnig maint Cyngor cyffredinol o 54 o aelodau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yng ngolau'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol yn ychwanegol at y penderfyniad ar Gele yn gynharach yn y cyfarfod.

10.5. **Cytunodd** y Comisiwn i ddiwygio'r Adroddiad Cynigion Drafft mewn perthynas â'r gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ei gategoreiddiad o dan bolisi Maint Cynghorau'r Comisiwn. Byddai'r drafft yn dweud yn glir fod yr arolwg wedi gweithredu'r polisi cytûn, ac y byddai'n canolbwyntio ar ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer holl wardiau arfaethedig Conwy.

10.6. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnig yr enwau arfaethedig ar ôl derbyn sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg:

- **Betws yn Rhos** yn y ddwy iaith
- **Betws y Coed and Trefriw** yn Saesneg a **Betws y Coed a Threfriw** yn Gymraeg
- **Bryn** yn y ddwy iaith
- **Caerhun** yn y ddwy iaith
- **Colwyn** yn y ddwy iaith
- **Conwy** yn y ddwy iaith
- **Craig y Don** yn y ddwy iaith
- **Deganwy** yn y ddwy iaith
- **Eglwys-bach a Llangernyw** yn y ddwy iaith
- **Eirias** yn y ddwy iaith
- **Gele** yn y ddwy iaith
- **Glyn** yn y ddwy iaith
- **Gogarth Mostyn** yn y ddwy iaith

- **Kinmel Bay** yn Saesneg a **Bae Cinmel** yn Gymraeg
- **Llanddulas a Llysfaen** yn y ddwy iaith
- **Llandrillo-yn-Rhos** yn y ddwy iaith
- **Llandudno Junction** yn Saesneg a **Cyffordd Llandudno** yn Gymraeg
- **Llanrwst with Llanddoged** yn Saesneg a **Llanrwst gyda Llanddoged** yn Gymraeg
- **Llansanffraid** yn y ddwy iaith **Llansannan** yn y ddwy iaith
- **Mochdre** yn y ddwy iaith
- **Pandy** yn y ddwy iaith
- **Penmaenmawr** yn y ddwy iaith
- **Penrhyn** yn y ddwy iaith
- **Pensarn Pentre Mawr** yn y ddwy iaith
- **Rhiw** yn y ddwy iaith
- **Towyn** yn y ddwy iaith
- **Tudno** yn y ddwy iaith
- **Uwch Conwy** yn y ddwy iaith
- **Uwch Aled** yn y ddwy iaith

**11. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Rhagfyr 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

11.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a'r dadansoddiad a ddarparwyd ar yr arolygwn a gynhaliwyd hyd yma.

**12. Calendr Digwyddiadau**

12.1. **Nodwyd** y calendr gan y Comisiwn.

**13. Unrhyw Fusnes Arall**

13.1. Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

- Briffiwyd y Comisiwn gan y Prif Weithredwr ar yr adroddiad a ryddhawyd wythnos diwethaf, sy'n cynnig tri opsiwn ar gyfer Cynulliad y dyfodol. Amlinellodd lefel y gwaith y gellid gofyn i'r Comisiwn ymgymryd ag ef. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a dywedodd y bydd datblygiad yn y dyfodol yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

13.2. **Cytunwyd** i baratoi agenda drafft ar gyfer y cyfarfod byr i'w gynnal ar 14 Chwefror 2018 gydag Ysgrifennydd y Cabinet, Alun Davies, i gynnwys cyflwyniad byr ar y fethodoleg y mae'r Comisiwn yn ei defnyddio i gynnal arolygon, y cynnydd hyd yma adeg y cyfarfod, ac i wahodd sylwadau gan Ysgrifennydd y Cabinet.

13.3. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Comisiwn wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned, yn Llandudno ar 19 Ionawr 2018. **Cytunwyd** i gylchredeg y dystiolaeth ddrafft i Gomisiynwyr wneud sylwadau arni, ac i awdurdodi'r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr i fynychu.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 23 Ionawr 2018**